Department for Education

**Pensiynau Athrawon**
**Adran Addysg,**
**Is-adran Cyflogaeth Ysgolion**
**Llawr Cyntaf, Bishopsgate House**
**Feethams**
**Darlington, DL1 5QE**

Gorffennaf 2016

Annwyl Gydweithiwr

**Ymgynghoriad ar ddiwygiadau technegol i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014**

Ar ôl cyflwyno newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon, ym mis Ebrill 2015, mae'r Adran wedi nodi diwygiadau technegol y mae angen eu gwneud i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010 (TPR 2010) a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 (TPSR 2014).

Mae'r llythyr hwn yn gwahodd sylwadau ar gyfres o reoliadau diwygio, sy'n cwmpasu diwygiadau i'r rheoliadau perthnasol (TPR 2010 a TPSR 2014). Mae'r rhain yn ymwneud â phedwar maes penodol: ymddeol oherwydd salwch; cymudiad salwch difrifol; ymddeol yn raddol yn achos gweithwyr afreolaidd; a mân ddiwygiadau technegol, ac mae eu hangen i sicrhau bod y trefniadau'n gweithio'n llawn fel y bwriadwyd, yn unol ag ymgynghoriadau blaenorol ar y rheoliadau dan sylw.

Mae'r nodyn esboniadol i'r rheoliadau yn rhoi mwy o fanylion am y newidiadau dan sylw, ond ceir crynodeb ohonynt fel a ganlyn:-

<u>Salwch</u>

Fel rhan a'r newidiadau i TPS, diwygiodd yr Adran y trefniadau sy'n cwmpasu ceisiadau am fuddion ymddeol oherwydd salwch. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn yr amser ar gyfer gwneud ceisiadau mewn gwasanaeth o chwe mis i ddwy flynedd er mwyn darparu'n well ar gyfer yr aelodau hynny sydd â chyflyrau sy'n datblygu'n araf ac sy'n anodd eu canfod.

Er mwyn cyflwyno'r polisi bwriadedig yn llawn, mae angen diwygio TPR 2010 er mwyn dileu'r amod bod yn rhaid i aelod fod wedi’i analluogi'n barhaol pan fydd yn gadael gwasanaeth pensiynadwy. [Atodlen 7, para 3(2) a (3)]

Cynigir diwygiad pellach i TPR 2010 a TPSR 2014 er mwyn ategu'r angen am gysylltiad rhwng y salwch ar adeg gadael a'r salwch ar adeg gwneud y cais.

[Atodlen 7, para 3 (4) o reoliadau 2010 a rheoliad 107 (b) a (c) ym Mhennod 6, adran 1 o reoliadau 2014]

Mae'r newidiadau hyn yn ei gwneud yn gwbl glir y gall aelodau sy'n sâl ar adeg gadael, ond nad ydynt wedi bodloni'r amod analluogrwydd eto, wneud cais dilynol (o fewn dwy flynedd) a ystyrir yn erbyn y meini prawf mewn gwasanaeth pan mai'r un salwch/salwch cysylltiedig sydd dan sylw.

<u>Cymudiad Salwch Difrifol</u>

Y polisi fan hyn yw unwaith y bydd aelod yn dewis cymudiad salwch difrifol ac y caiff y cais ei gymeradwyo, yna dyna'r budd a delir, gan gynnwys petai'r aelod, yn anffodus, yn marw yn ystod y cyfnod ar ôl i'r cais gael ei dderbyn a chyn i'r taliad gael ei wneud. Mae hyn yn dilyn bwriad polisi cyffredinol TPS, sef mai'r budd a ddewisir gan yr aelod, lle y bo modd, yw'r budd a delir. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau fel y maent wedi eu drafftio ar hyn o bryd yn creu'r posibilrwydd y ceir rhywfaint o amwysedd ynglŷn â pha daliadau a ddylai fod yn gymwys. Felly, cynigir diwygiad er mwyn sicrhau eglurder yn unol â bwriad y polisi.

<u>Enillion Pensiynadwy Aelodau sy'n Ymddeol yn Raddol</u>

Mae'r darpariaethau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i aelod, sy'n dewis ymddeol yn raddol, dderbyn gostyngiad mewn enillion pensiynadwy o ddim llai nag 20% o'i enillion pensiynadwy cyn ymddeol yn raddol. Caiff enillion cyn ymddeol yn raddol eu pennu ar hyn o bryd drwy ddefnyddio enillion blynyddol cyfartalog yr aelod yn ystod y chwe mis yn union cyn ymddeol yn raddol. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn cwmpasu pob math o aelod yn briodol; yn benodol gall achosi problemau i weithwyr afreolaidd lle, er enghraifft, mae'r cyfnod o chwe mis yn union cyn ymddeol yn raddol yn cynnwys gwyliau di-dâl.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Adran yn cynnig newid y cyfrifiad ar gyfer enillion cyfartalog cyn ymddeol yn raddol i'r cyfartaledd dros y 12 mis diwethaf.

<u>Diwygiadau Technegol</u>

Mae'r Adran yn cynnig gwneud y diwygiadau technegol canlynol i sicrhau y caiff bwriad y polisi ei adlewyrchu'n glir yn y rheoliadau:-

- Diwygiad i eiriad y rheoliad ar gyfer cynnydd actiwaraidd o ran ymddeoliad hwyr yn nhrefniadau'r cyfartaledd gyrfa i gadarnhau mai dim ond pensiwn a gronnwyd hyd at NPA a gynyddir.

- Diwygiad i newid y cyfeiriad at “gyflogwr” yn Atodlen 1, 8(1) o reoliadau 2014 i “reolwr y cynllun” er mwyn cywiro gwall drafftio.

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar y rheoliadau drafft erbyn 16 Medi 2016 a gellir anfon y rhain naill ai drwy e-bostio:

Tpsamendments2016.CONSULTATION@education.gsi.gov.uk

Neu drwy anfon llythyr at:

Teachers' Pension Policy Team – Consultation Response
Department for Education
First Floor
Bishopsgate House
Feethams
Darlington
DL1 5QE

Yn gywir

John Brown